SP O7

Blaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb,
Llywodraeth Leol a Chymunedau

Priorities for the Equality,
Local Government and Communities Committee

Ymateb gan: Stonewall Cymru

Response from: Stonewall Cymru

**Cefndir**

Stonewall Cymru yw'r elusen Cymru gyfan dros gydraddoldeb i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws (LHDT). Sefydlwyd Stonewall Cymru yn 2003, ac rydyn ni'n gweithio â busnesau, sefydliadau cyhoeddus, ysgolion, Llywodraeth Cymru, Cynulliad Cenedlaethol Cymru ac ystod eang o bartneriaid mewn cymunedau ar draws Cymru i wella profiadau pobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws.

**Trosolwg**

i. Mae Stonewall Cymru yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn ar flaenoriaethau ar gyfer y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau.

ii. Cyn etholiadau y Pumed Cynulliad, cyhoeddasom Maniffesto Stonewall Cymru 2016: Cydraddoldeb i bobl lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thraws yng Nghymru[1]. Mae'r maniffesto yn amlinellu blaenoriaethau ar gyfer cydraddoldeb ar draws meysydd allweddol megis iechyd a gofal cymdeithasol, addysg, a chydraddoldeb LHDT yma yng Nghymru ac yn rhyngwladol. Seiliwyd yr argymhellion ar ein profiad o weithio gyda rhanddeiliaid ar draws Cymru ac arolwg o flaenoriaethau ein cefnogwyr ar gyfer cydraddoldeb LHDT.

iii. Credwn fod awgrymiadau'r Pwyllgor am ei raglen waith yn cynnwys nifer o syniadau da ac yn mynd i'r afael â nifer o faterion o bwys, ond rydym yn argymell y dylai'r Pwyllgor ystyried cynnal rhagor o waith fyddai'n ymdrin â materion yn ymwneud â chydraddoldeb yn benodol.

iv. Amlinellwn rhai syniadau ychwanegol am flaenoriaethau isod sy'n gysylltiedig â materion LHDT, ond byddwn yn cynghori'r Pwyllgor i ystyried syniadau am waith yn ymwwneud â'r nodweddion gwarchodedig eraill hefyd, gan weithio â rhanddeiliad allweddol ar draws maes cydraddoldebau yng Nghymru.

**Rhaglen waith y Pwyllgor**

v. **Cydraddoldeb i bobl draws yng Nghymru**

Mae pobl draws yng Nghymru yn wynebu anghydraddoldebau sylweddol ar draws gwahanol feysydd, gan gynnwys mynediad at ofal iechyd, addysg, y gweithle, trosedd casineb a iechyd meddwl. Yn 2015, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cynllun gweithredu i wella cydraddoldeb ar gyfer pobl drawsryweddol'[2]. Gall y pwyllgor archwilio cynnydd ar amcanion y cynllun gweithredu, unrhyw fylchau yn y cynllun a sut y gall y Llywodraeth ac asiantaethau eraill wella eu gwaith i sicrhau cydraddoldeb i bobl draws yng Nghymru.

vi. **Troseddau casineb yng Nghymru**

Mae'r misoedd diwethaf wedi gweld cynnydd mawr yn adroddiadau o droseddau casineb Nghymru a Lloegr. Gall y Pwyllgor ystyried y rhesymau am y cynnydd hwn, ac i ba raddau mae ymdrechion amlasiantaethol wedi llwyddo i fynd i'r afael â throseddau casineb yng

[1] http://www.stonewallcymru.org.uk/cy/ein-gwaith/ymgyrchoedd/etholiad-2016

[2] http://gov.wales/docs/dsjlg/publications/equality/160314-transgender-action-plan-cy.pdf

Stonewall Cymru

Nghymru. Byddai ymchwiliad o'r fath hefyd yn gyfle i glywed gan ystod eang o gymunedau a rhanddeiliaid am sut mae cryfhau cydlyniant cymunedol ymhob rhan o'r wlad.

vii. **Diogelu hawliau yng Nghymru**
Os ydy cynlluniau Llywodraeth Prydain i ddiddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol (1998) yn mynd yn eu blaenau, gallai'r pwyllgor archwilio'r sgil effeithiau i Gymru, yn enwedig yng nghyd-destun cyfansoddiadol y setliad datganoli, ac ystyried sut gall y Cynulliad a Llywodraeth Cymru sicrhau parhad fframwaith hawliau dynol gadarn i Gymru ar gyfer y dyfodol.

**Gwybodaeth bellach**

Am wybodaeth bellach, cysylltwch â:

Mabli Jones
Rheolwr Ymgyrchoedd, Polisi ac Ymchwil
Stonewall Cymru
mabli.jones@stonewall.cymru
02920 347 002